# Atgofion am *Kristallnacht*: Dinistr a Dianc

**TAFLEN WYBODAETH A GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR**

## 1. Gwybodaeth am *Kristallnacht*

Ar 9 a 10 Tachwedd 1938, cynhaliodd y gyfundrefn Natsïaidd a'i chyd-weithwyr gyfres o ymosodiadau o'r enw 'pogromau' yn erbyn y boblogaeth Iddewig yn yr Almaen ac yn y tiriogaethau meddianedig eraill. Gair Rwsieg yw pogrom, sy'n golygu 'gwneud llanastr, dymchwel mewn modd treisgar'. Daeth y digwyddiad hwn yn hysbys fel *Kristallnacht* neu 'Noson y Gwydr Toredig' oherwydd y gwydr chwilfriw a lenwai'r strydoedd ar ôl y fandaliaeth a'r dinistr i synagogau, a busnesau a chartrefi a oedd yn eiddo i Iddewon. Fel y cewch glywed o'r clip sain o gyfweliad hanes llafar â chyn-breswylydd yng Nghymru, Julius Weil, a oedd yn blentyn ifanc yn yr Almaen ar y pryd, cafodd ysgolion eu targedu a'u dinistrio hefyd.



*Golwg o du mewn Synagog Fasanenstraße, Berlin a ddinistriwyd o ganlyniad i'w llosgi yn ystod Pogrom Mis Tachwedd 1938.*

*Delwedd: Center for Jewish History, Dinas Efrog Newydd. Trwy garedigrwydd Leo Baeck Institute.*



[Almaenwyr yn mynd heibio i ffenestr siop doredig busnes a oedd yn eiddo i Iddewon ac a gafodd ei ddinistrio yn ystod Kristallnacht, 10 Tachwedd 1938.]

*Delwedd: United States Holocaust Memorial Museum Photo Archives # 86838.*
*Trwy garedigrwydd National Archives and Records Administration, College Park.*
*Hawlfraint: Bildarchiv Abraham Pisarek.*

Yn ystod *Kristallnacht* llofruddiwyd o leiaf 91 o bobl, a chyflawnodd lawer hunanladdiad. Aethpwyd â thua 30,000 o wrywod Iddewig i wersylloedd crynhoi, yn enwedig y gwersylloedd yn Buchenwald, Dachau a Sachsenhausen. Roedd y gwersylloedd crynhoi yn ardaloedd lle'r oedd nifer mawr o bobl yn cael eu carcharu ac yn destun llafur gorfodol (yn ystod yr Ail Ryfel Byd roeddent hefyd yn lleoedd aros cyn i bobl gael eu hallgludo i wersylloedd marwolaeth). Dyma'r tro cyntaf i swyddogion Natsïaidd arestio niferoedd mawr o Iddewon dim ond am eu bod yn Iddewon.

Yn dilyn *Kristallnacht*, bu i'r gyfundrefn Natsïaidd orfodi'r gymuned Iddewig i dalu 'treth cymod' o 1 biliwn Reichsmark, a chyflwynodd fesurau gwrth-Iddewig newydd a oedd â'r nod o ynysu a gwahanu Iddewon oddi wrth eu cyd-Almaenwyr: caewyd pob busnes oedd yn eiddo i Iddewon; cafodd yr Iddewon eu gwahardd o bob ysgol gyhoeddus a phrifysgol, yn ogystal ag o sinemâu, theatrau a chyfleusterau chwaraeon.

*Kristallnacht* oedd y sbardun i lawer o Iddewon ffoi o'r Almaen pe gallent. Daeth Julius Weil i Loegr gyda'i ysgol, ac yn ddiweddarach symudodd i Ferthyr Tudful, gan ddod yn aelod gweithgar o'r gymuned Iddewig leol.

## 2. Bywgraffiad Julius Weil

Ganed Julius Weil yn Dortmund, yr Almaen ar 11 Hydref 1925. Bu Julius yn byw gyda'i rieni a'i frawd iau yng Nghwlen (Köln) wedyn, hyd 1938. Wedi i'w ysgol Iddewig gael ei dinistrio yn ystod pogrom *Kristallnacht* ar 9-10 Tachwedd 1938, trefnodd y prifathro i'r ysgol gyfan gael ei throsglwyddo i Lundain. Mae Julius yn cofio ei fod ar y trên *Kindertransport* cyntaf i adael y wlad; yn drist iawn, hwn oedd y tro olaf iddo weld ei rieni a'i frawd.

Roedd Julius yn byw yn Llundain yn wreiddiol, cyn cael ei symud i Bedford i aros gyda theulu nad oedd yn Iddewig. Gadawodd yr ysgol yn bymtheg oed ac aeth i weithio yn y fasnach ffwr i ddechrau, ond bu'n rhaid iddo roi'r gorau i hynny gan iddi ddod yn amlwg bod ganddo alergedd i ffwr. Yn 1942 aeth i weithio i'r Weinyddiaeth Gyflenwi (Ministry of Supply, MOS). Dechreuodd y gwaith hwn yn Bedford ac yna symudodd i Surrey ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Yna gadawodd Julius yr MOS a chael gwaith mewn ffatri yn Surrey am nifer o flynyddoedd.

Yn 1956, bu i'r ffrind cyntaf a wnaeth yn Lloegr, a oedd hefyd yn ffoadur Iddewig, ddod i gysylltiad ag ef a gofyn iddo a hoffai weithio yn y cwmni yr oedd ei ewythr yn berchen arno ym Mhentre-bach, ger Merthyr Tudful. Derbyniodd Julius y cynnig, a threuliodd weddill ei oes yn gweithio i'r Standard Box and Carton Company, gan ddod yn gyfarwyddwr y cwmni yn y pen draw.

Bu farw Julius yng Nghaerdydd yn 2021.



[Brawd Julius Weil, Arnold, yng Nghwlen Ebrill 1936. Llofruddiwyd Arnold yn ystod yr Holocost.]

*Delwedd: Jewish History Association of South Wales/Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (JHASW/CHIDC).*
*Trwy garedigrwydd Julius Weil.*

## 3. Gweithgareddau

**GWEITHGAREDD 1**

**a)** Darllenwch yr wybodaeth am *Kristallnacht* a gwrandewch ar glip sain o gyfweliad â Julius Weil, un o oroeswyr yr Holocost. Yn y clip mae Julius yn sôn am *Kristallnacht* yng Nghwlen, yr Almaen, am ei ysgol yn cael ei dinistrio, ac am y modd y ceisiodd ei brifathro drosglwyddo'r ysgol gyfan i Lundain.

**Trawsgrifiad Hanes Llafar:**

***Cyfwelydd:*** *Felly, bu i chi grybwyll Kristallnacht.*

***Julius Weil:*** *Do.*

***Cyfwelydd:*** *Felly mae gennych atgofion o hynny?*

***Julius Weil****: [Saib.] O, oes.*

***Cyfwelydd:*** *A allwch ddweud mwy wrthyf?*

***Julius Weil:*** *Wel, doeddwn i ddim allan o gwmpas y lle pan ddigwyddodd, ond roedd pob busnes Iddewig yng Nghwlen [Köln yn Almaeneg] wedi'i chwilfriwio. Ffenestri toredig; wedi cau, fwy neu lai. Cafodd fy synagog, wel pob synagog, ei malurio, ei llosgi, a'i chwilfriwio Cafodd yr ysgol yr oeddwn yn mynd iddi, a oedd fwy neu lai'n sownd i un o'r synagogau, hefyd ei dinistrio'n llwyr. Felly ni pharhaodd yr ysgol ar ôl y nawfed, y degfed o Dachwedd, ond trefnwyd rhai cyfleusterau mewn adeilad mawr ag ystafelloedd ynddo, a oedd yn ganolfan gymunedol Iddewig, dybiwn i. Felly dyna lle parhaodd yr addysg. Aeth fy mhrifathro ati'n ddiwyd ar unwaith i geisio trosglwyddo'r ysgol gyfan i Brydain. A'm dosbarth i, sef yr un a oedd yn debyg i'r trydydd dosbarth mewn ysgol uwchradd, hynny yw plant deuddeg a thair ar ddeg oed, oedd y dosbarth cyntaf i ddod i Loegr.*

**b)** Creu trefnydd graffeg (e.e., map cysyniadau, gwe syniadau, neu fap meddwl) i drefnu'r wybodaeth (disgrifiadau gwahanol a ffeithiau allweddol am *Kristallnacht*). gellir gwneud y gweithgaredd hwn yn unigol neu mewn grŵp).

**GWEITHGAREDD 2**

**a)** Ystyriwch a thrafodwch mewn grwpiau bach:

- Sut y gallai Julius Weil a phobl ifanc Iddewig eraill fod wedi teimlo yn ystod ac ar ôl digwyddiadau *Kristallnacht*?
- Penderfynu dianc wnaeth llawer o'r Iddewon a oroesodd yr ymosodiadau. Sut y byddent wedi teimlo wrth wneud hynny? Ystyriwch yr ymatebion cadarnhaol a negyddol.

**b)** Cyflwynwch y prif bwyntiau trafod i'r dosbarth cyfan.

**GWEITHGAREDD 3**

**a)** Ystyriwch a thrafodwch mewn grwpiau bach:

- Sut allwch chi adnabod rhagfarn, gwahaniaethu ac anghyfiawnder yn eu bywydau eu hunain a'r byd ehangach?
- Pa gamau y gallwch eu cymryd?

**b)** Cyfleu'r prif bwyntiau trafod i'r dosbarth cyfan.

**GWEITHGAREDD 4**

**a)** Ysgrifennwch adroddiad byr o safbwynt **sylwedydd annibynnol** (h.y., nid troseddwr na dioddefwr) a oedd yn dyst i ddigwyddiadau *Kristallnacht*. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau hyn i'w helpu i greu eu darn:

- Ble ydych chi? (E.e., y tu allan i'r synagog.)
- Beth y gallwch ei weld? (E.e., gwydr toredig disglair yn gorchuddio'r strydoedd.)
- Beth yr ydych yn ei glywed? (E.e., sŵn gwydr yn malu).

**b)** Rhannwch yr adroddiad â'r dosbarth trwy ei ddarllen.